



Hydref 2024

Mostyn Estates Limited

Dosbarthiad Tir Amaethyddol ac Adnoddau Pridd

ar

Dir ger Queens Road, Llandudno

**Beechwood Court,
Long Toll, Woodcote,
RG8 0RR**

01491 684 233

www.reading-ag.com

1	CYFLWYNIAD.....	1
2	Y SAFLE AC AMODAU HINSODDOL.....	2
3	ANSAWDD Y TIR AMAETHYDDOL.....	4
	ATODIAD 1: DATA LABORDY	7
	ATODIAD 2: CRYNODEBAU PROFFIL PRIDD A CHYFRIFIADAU SYCHDER.....	9
	ATODIAD 3: LLUNIAU O'R SAFLE A DISGRIFIAD O'R TWLL	11
	FFIGWR RAC/10492b/1: ARSYLWADAU.....	12
	FFIGWR RAC/10492b/2: DOSBARTHIAID TIR AMAETHYDDOL.....	13

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Reading Agricultural Consultants Ltd (RAC) wedi cael cyfarwyddyd gan Mostyn Estates Limited i ymchwilio i'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a'r adnoddau pridd ar dir oddi ar Queen's Road Llandudno drwy gyfrwng arolwg manwl o nodweddion y pridd a'r safle.
- 1.2 Mae'r canllawiau ar gyfer asesu ansawdd tir amaethyddol yng Nghymru a Lloegr wedi ei nodi yng nghanllawiau a meini prawf diwygiedig y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol ¹.
- 1.3 Caiff tir amaethyddol yng Nghymru a Lloegr ei raddio rhwng 1 a 5, yn dibynnu ar i ba raddau mae nodweddion ffisegol neu gemegol yn arwain at gyfyngiadau hirdymor ar ddefnydd amaethyddol. Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar raddio yw'r hinsawdd, amodau'r safle a'r pridd sydd, ynghyd â'r ymadwaith rhyngddynt, yn ffurfio'r sail ar gyfer dosbarthu tir i un o'r pum gradd.
- 1.4 Mae tir Gradd 1 yn dir amaethyddol o ansawdd rhagorol gyda dim ond mân gyfyngiadau, neu ddim cyfyngiadau o gwbl, i ddefnydd amaethyddol. Mae Gradd 2 yn dir amaethyddol o ansawdd da iawn gyda mân gyfyngiadau sy'n effeithio ar gnydau, aredig neu gynaeafu. Mae gan dir Gradd 3 gyfyngiadau cymedrol sy'n effeithio ar y dewis o gnydau, amseru a'r math o aredig, cynaeafu neu lefel y cnwd, ac mae wedi ei isrannu yn Isradd 3a (tir o ansawdd da) ac Isradd 3b (tir o ansawdd cymedrol). Mae tir Gradd 4 yn dir amaethyddol o ansawdd gwael gyda chyfyngiadau dwys sy'n cyfyngu ar yr ystod o gnydau a/neu lefel y cnwd yn sylweddol. Mae tir Gradd 5 yn dir o ansawdd gwael, gyda chyfyngiadau dwys iawn sy'n cyfyngu'r defnydd i borfeydd parhaol neu bori garw.
- 1.5 Mae tir sydd wedi ei ddosbarthu fel Graddfeydd 1, 2 a 3a wedi ei ddiffinio ym mharagraff 3.58 Polisi Cynllunio Cymru² fel y tir amaethyddol gorau a mwyaf amldefnydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru gyda Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar gyfer Cymru ³. Mae'r map wedi ei ddylunio ar grid 50m. Mae

¹ **Y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (1988).** *Dosbarthiad Tir Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr Canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol* Cyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

² **Llywodraeth Cymru (2024).** Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, Chwefror 2024
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12.pdf>

³ **Llywodraeth Cymru (2024).** *MapDataCymru*. <https://mapdata.llyw.cymru/maps/new#/>

meini prawf gan gynnwys yr hinsawdd, llethr, gwlypter y pridd, sychder a chynnwys cerrig wedi eu hystyried a'u defnyddio i bennu y cyfyngiad mwyaf tebygol i ansawdd tir amaethyddol o fewn pob sgwâr grid. Mae'r map yn rhagweld bod y safle o ansawdd Gradd 2.

- 1.6 Fodd bynnag fel yr eglurwyd gan Gwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru ar Ddefnydd Tir Amaethyddol ⁴, yr unig ffordd o bennu gradd amaethyddol tir yn gywir yw drwy arolwg tir manwl yn unol â'r canllawiau Defnydd Tir Amaethyddol presennol. Mae'r arolwg hwn yn dilyn y fethodoleg a'r canllawiau a sefydlwyd ar gyfer cynnal arolygon Defnydd Tir Amaethyddol.

2 Y safle ac amodau hinsoddol

Nodweddion cyffredinol, ffurf y tir a draenio

- 2.1 Mae'r safle'n ymestyn i oddeutu 4.4ha, gan gynnwys tir amaethyddol bob ochr i Fferm Lane. Mae Queen's Road i'r gogledd-orllewin ac mae Wormhout Way (A470) i'r de-orllewin. Mae eiddo preswyl ger Maes Berllan ar ffin ogleddol y safle, mae tir amaethyddol arall i'r gogledd-ddwyrain a'r de.
- 2.2 Mae'r topograffi wedi ei nodweddu gan lethr sy'n wynebu'r gogledd rhwng uchder o tua 15m a 26m uwchlaw'r seilnod Ordnans (AOD). Hwylusir y system ddraenio gan y llethr a chwrs dŵr ar hyd y ffiniau dwyreiniol a gogleddol.
- 2.3 Nid yw MapDataCymru³ yn dangos unrhyw berygl sylweddol o lifogydd o afonydd ar y safle. Mae perygl o lifogydd o ddŵr wyneb a chyrsgiau dŵr bychain ar hyd y ffiniau gogleddol a dwyreiniol.

Amodau Amaeth-hinsoddol

- 2.4 Mae data amaeth-hinsoddol ar gyfer y safle wedi ei ryngosod o ddata pwynt grid 5km safonol y Swyddfa Dywydd sydd wedi ei osod ar uchder cynrychioliadol o 25m Uwchlaw'r Seilnod Ordnans ac fe'u gwelir yn Nhabl 1. Mae'r hinsawdd yn y safle yn fwyn gyda diffygion lleithder cymedrol i weddol fawr. Mae nifer Dyddiau Capasiti'r Cae yn fawr ac yn anffafriol ar gyfer darparu cyfleoedd ar gyfer gwaith maes amaethyddol. Fodd bynnag nid oes yna unrhyw gyfyngiad hinsoddol hollbwysig i'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol.

⁴ **Llywodraeth Cymru (2020).** *Dosbarthiad Tir Amaethyddol, Cwestiynau Cyffredin.*
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-06/agricultural-land-classification-frequently-asked-questions.pdf>

Tabl 1:Amodau amaeth-hinsoddol lleol

Paramedr	Mesuriad
Cyfeirnod Grid	SH 79400 80700
Uchder	25m Uwchlaw'r Seilnod Ordnans
Glaw Blynnyddol Cyfartalog	780mm
Tymereddau Cronnol >0°C	1,448 y dydd°
Dyddiau Capasiti'r Cae	183 diwrnod
Diffyg Lleithder ar Gyfartaledd, gwenith	102mm
Diffyg Lleithder ar Gyfartaledd, tatws	92mm

Deunydd rhiant y pridd a'r math o bridd

2.5 Mae daeareg y creigwely sydd wedi ei fapio gan Arolwg Daearegol Prydain ⁵ yn ffurfio cyfres gymhleth iawn o unedau. Yn ôl trefn oedran disgynnol:

- Ffurfiannau Isaf, Canol ac Uchaf Crafnant yng Ngrŵp Folcanig yr Wyddfa - yng ngogledd y parcel o dir i'r gorllewin o Fferm Lane, sy'n cynnwys tuff a tuffite gydag is-gorff carreg laid, tywodfaen a lleidfaen;
- Ffurfiad Nod Glas - yng ngogledd a chanol y parcel o dir i'r gorllewin o Fferm Lane, sy'n cynnwys carreg laid du sydd fel glo;
- Cerrig Llanymdyfri - i'r gogledd o'r parcel o dir i'r dwyrain o Fferm Lane, sy'n cynnwys ffurfiannau o garreg laid;
- Ffurfiad Graean Dinbych - yng nghanol y parcel o dir i'r dwyrain o Fferm Lane, sy'n cynnwys addasu tywodfaen, carreg faen a lleidfaen lwyd a llwyd tywyll (gwllâu streipïog) a gwllâu a amharwyd; ac

2.6 Mae gwaddodion arwynebol o diamicton yn gorwedd ar y creigwely ar draws y safle a gall gynnwys ystod o ddeunydd o ansawdd gwael ac sy'n amrywio o ran maint o glai i feini mawr.

2.7 Mae mapio pridd Arolwg Pridd Cymru a Lloegr ⁶ (graddfa 1:250,000) yn dangos rhan helaeth o'r safle fel Cegin, yn ffinio â phriddoedd Dwyrain Keswick 3 i'r dwyrain.

2.8 Mae gan briddoedd Cegin wead priddgleiog a chleiog gyda strwythur hydraid araf a bras ac yn aml isbridd cywasgedig. Pan fo cyfundrefn Dyddiau Capasiti'r Cae yn fyrrach na 200 diwrnod, fel ar y safle, mae'r priddoedd fel arfer yn Nosbarth Gwlypter IV.

⁵ Arolwg Daearegol Prydain (2024). *Geology Viewer* <https://www.bgs.ac.uk/map-viewers/bgs-geology-viewer/>

⁶ Arolwg Pridd Cymru a Lloegr (1984). *Priddoedd Cymru (1:250,000)*, Taflen 2

- 2.9 Nodweddir cyfres Dwyrain Keswick 3 gan briddoedd brown mewn drifft priddgleiog dwfn sydd ychydig yn garegog ac wedi ei ddraenio'n dda. Mae gan rai priddoedd cyfansoddol galchfaen o fewn dyfnder o 80cm. Mae'r holl brif briddoedd wedi eu draenio'n dda (WC I)⁷.

3 Ansawdd y tir amaethyddol

Dulliau arolwg pridd

- 3.1 Cafodd pedwar proffil pridd eu harchwilio gan ddefnyddio taradr Edelman (Iseldiraidd) ar ddwystr arsylwi o un i bob hectar yn unol â'r argymhellion sefydledig ar gyfer arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol ⁴. Cafodd un twll arsylwi hefyd ei gloddio er mwyn archwilio strwythurau'r isbridd. Gellir gweld y lleoliadau arsylwi yn Ffigwr RAC/10492b/1. Ym mhob pwynt arsylwi cafodd y nodweddion canlynol eu hasesu ar gyfer pob terfynlin pridd hyd at uchafswm o 120cm neu unrhyw haen anhreiddiadwy:
- gwead y pridd;
 - cynnwys y garreg;
 - lliw (gan gynnwys britho lleol);
 - cysondeb;
 - cyflwr strwythurol;
 - carbonad rhydd; a
 - dyfnder.
- 3.2 Cafodd un sampl o'r uwchbridd ei gyflwyno er mwyn i labordy benderfynu ar ddosbarthiad maint y gronynnau, pH, cynnwys mater organig a'r cynnwys maeth (P, K, Mg). Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad 1.
- 3.3 Cafodd Dosbarthiad Gwlypter y Pridd ei benderfynu o'r matrices lliw, presenoldeb neu absenoldeb brychni clai glas llwyd a melyn a'i ddyfnder a haenau o isbridd hydraid araf sydd o leiaf 15 cm o drwch mewn perthynas â nifer y Dyddiau Capasiti'r Cae yn y lleoliad.
- 3.4 Ymchwiliwyd i sychder pridd drwy gyfrif hafaliadau cydbwysedd lleithder (a roddwyd yn Atodiad 2). Caiff Dŵr Proffil sydd Ar Gael ei amcangyfrif o wead, natur garegog a dyfnder ac yna ei

⁷ Rudeforth et al (1984). *Priddoedd a'u Defnydd yng Nghymru* Bwletin 11 Arolwg Pridd Cymru a Lloegr, Harpenden.

gymharu â diffyg lleithder a gyfrifwyd ar gyfer y cynydau safonol, gwenith a thatws. Mae'r Diffyg Lleithder yn swyddogaeth o anwedd-drydarthiad posibl a dŵr glaw. Gall graddio'r tir gael ei effeithio os yw'r Dŵr Proffil sydd Ar Gael yn annigonol i gydbwyso'r Diffyg Lleithder a bod sychder yn digwydd.

Dosbarthiad tir amaethyddol a chyfyngiadau'r safle

- 3.5 Mae asesiad o ansawdd y tir wedi ei gynnal yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar gyfer Dosbarthiad Tir Amaethyddol.¹ Mae proffiliau pridd wedi eu disgrifio yn unol â Hodgson⁸ sef y ffynhonnell gydnabyddedig ar gyfer disgrifio proffiliau a nodweddion pridd yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar gyfer Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Caiff y proffiliau taradr eu disgrifio yn Atodiad 2 a'r pwll yn Atodiad 3, yn ogystal â lluniau o'r safle.
- 3.6 Y prif gyfyngiad i ansawdd tir amaethyddol yw gwlypter a gaiff ei ddylanwadu'n gryf gan amodau hinsoddol y safle. Ystyrir y safle fel Gradd 2 ac Isradd 3a.
- 3.7 Mae'r uwchbridd yn frown tywyll (7.5YR3/3 neu 10YR3/3 yn siartiau lliw pridd Munsell⁹) priddglai canolig sydd â dyfnder cyfartalog o 38cm. Mae'r uwchbridd ychydig yn garegog, nid yw'n galchaid ac mae ganddo strwythur o flociau sydd wedi datblygu'n wan ac sy'n lledonglog ac yn fân. Cafodd nifer o wreiddiau ffibrog a phryfed genwair cyffredin eu gweld drwy'r uwchbridd.
- 3.8 Mae'r terfynlin pridd uchaf yn briddglai canolig neu drwm ac yn frown cochaidd neu frown (5YR4/3 neu 7.5YR4/3 neu 10YR4/3), ychydig yn garegog ac nid yw'n galchaid, ac mae ganddo strwythur o flociau lledonglog canolig gwan.
- 3.9 Ystyriwyd bod y mwyafrif o'r proffiliau'n pasio i glai'r isbridd isaf o ddyfnderoedd o rhwng 75cm ac 80cm. Mae'r clai'n frown cochaidd tywyll neu frown cochaidd (2.5YR3/3, 5YR3/4 neu 5YR4/3) gyda rhywfaint o smotiau mewn rhai adrannau. Mae'r strwythur wedi'i ddatblygu'n wan, prismatig canolig, mandylledd >0.5% mwy na 0.5mm o ran diamedr, ac yn hydraid araf.
- 3.10 Mae proffiliau'r pridd yn Nosbarth Gwlypter I neu II yn ddibynnol ar y dyfnder i glai hydraid araf. Mae'r proffiliau yn Nosbarth Gwlypter I wedi'u cyfyngu o ran ymarferoldeb i Radd 2. Mae proffiliau yn Nosbarth Gwlypter II wedi'u cyfyngu o ran gwlypter i Isradd 3a.
- 3.11 Mae ardaloedd pob gradd Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar y safle wedi'u nodi yn Nhabl 2 a dengys eu dyraniad yn Ffigur RAC/10492b/2.

⁸ **Hodgson, J. M. (Gol.) (1997).** *Llawlyfr maes arolwg pridd* Monograff Technegol Arolwg Pridd Rhif 5, Silsoe.

⁹ **Lliw Munsell (2009).** *Llyfr Lliw Pridd Munsell*. Grand Rapids, MI, UDA

Tabl 2:Dosbarthiad Tir Amaethyddol

Graddfa	Disgrifiad	Hectarau	%
Gradd 2	Ansawdd da iawn	1.6	36
Is-radd 3a	Ansawdd da	2.6	59
Tir nad yw'n amaethyddol		0.2	5
Cyfanswm		4.4	100


ATODIAD 1: Data Labordy

Yr hyn a fesurir	Pwll 1	Unedau
Tywod 2.00-0.063 mm	47	% w/w
Llifwaddod 0.063-0.002 mm	35	% w/w
Clai <0.002 mm	18	% w/w
Mater Organig	4.3	% w/w
Gwead	Priddglai Canolig/ Lleidfaen Tywodlyd	


Yr hyn a fesurir	Pwll 1	Unedau
pH y pridd	7.2	
Ffosfforws (P)	6.4	mg/l (av)
Potasiwm (K)	37.0	mg/l (av)
Magnesiwm (Mg)	115	mg/l (av)

Yr hyn a fesurir	Pwll 1	Unedau
Ffosfforws (P)	0	Mynegai ADAS
Potasiwm (K)	0	Mynegai ADAS
Magnesiwm (Mg)	3	Mynegai ADAS

Gwead Pridd drwy Ddadansoddiad o Faint y Gronynnau



Dosbarth Mater Organig



Atodiad 2: Crynodebau Proffil Pridd a Chyfrifiadau Sychder

Gwneir cyfrifiadau gwlypter yn unol â'r fethodoleg a roddir yn Atodiad 3 canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol, y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd 1988.

Gwneir cyfrifiadau sychder yn unol â'r fethodoleg a roddir yn Atodiad 4 canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol, y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd 1988.

Caiff graddau eu dangos ar gyfer sychder, gwlypter ac unrhyw ffactorau eraill yn ymwneud â'r pridd neu'r safle sy'n berthnasol. Gosodir y Raddfa gyffredinol yn ôl y ffactor sy'n cyfyngu fwyaf a dangosir hyn ar y dde.

Mathau o gerrig %TAvEAv caled10.5					Data Hinsawdd MDgwenith102 MDtatws92 Dyddiau183 Capasiti'r Cae			Canllawiau Dosbarth Gwlypter IIIIIIVV SPL o fewn 80cm, gleio o fewn 40cm>77cm49-77cm<49cm SPL o fewn 80cm, gleio o fewn 40cm-70cm>65cm<65cm Dim SPL ond gleio o fewn 40cmisbridd garwachosion eraill// Mae uchafswm dyfnder y treiddiad taradr wedi ei danlinellu											
caled		cerrig fflint a cherrig mân																	
Safle	Dyfnder		Gwead	CaCO ₃	Lliw	Smotiau	niferus	%carreg	%carreg	Strwythur	AP gwenith	AP tatws	Clai glas	SPL	WC	Gwlypter	Graddfa Terfynol	Ffactor(au) Cyfyngu	
Rhif.	cm				Lliw			caled			mm	mm				graddfa WE			
1	T	038	mCL		7.5YR3/3			8			63	63	n	n	//	3a	3a	WE	
		3840	mCL		7.5YR4/3			3			3	3	n	n					
		4060	mCL		5YR4/3			3			25	31	n	n					
		6078	hCL		10YR5/3	Och	com	3		gwael	12	12	y	n					
		7890	C		5YR3/4	Mn	com	3		gwael	8	0	n	y					
		90120	C							gwael	21	0	n	y					
										Cyfanswm	133	109							
										MB	31	17							
										Graddfa Sychder	1	1							
2	T	038	mCL		7.5YR3/3			8			63	63	n	n	/	2	2	WE	
		3860	mCL		5YR4/3	Mn	Ychydig	3			28	34	n	n					
		6070	hCL		5YR4/3			3			10	16	n	n					
		7080	hCL		5YR4/3			3			10	0	n	n					
		80120	C					3		gwael	27	0	n	y					
										Cyfanswm	138	113							
										MB	36	21							
										Graddfa Sychder	1	1							
3	T	038	mCL		7.5YR3/3			8			63	63	n	n	/	2	2	WE	
		3855	mCL		7.5YR4/3	Mn	Ychydig	3			28	34	n	n					
										5YR4/3	10	16	n	n					

10492b – Queens Road, Llandudno

		70	80	hCL	5YR4/3	Och	com	3		10	0	n	n				
		80	120	C				3	.gwael.....	27.....	0.....	n	y				
									Cyfansw m	138	113						
									MB	36	21						
									Graddfa Sychder	1	1						
4	T	0	38	mCL	7.5YR3/3			8		63	63	n	n	//	3a	3a	WE
		38	40	hCL	10YR4/3	Mn	Ychydig	3		3	3	n	n				
		40	50	hCL	7.5YR4/3	Och	com	3		16	16	n	n				
		50	60	hCL	7.5YR5/3	Och	Llawer	3		10	16	y	n				
		60	75	hCL	7.5YR5/3	Och	Llawer	3		15	16	y	n				
		75	110	C	2.5YR3/3	Och	Llawer	3	gwael	24	0	y	y				
		110	120	C				3	.gwael.....	7.....	113.....	y	y				
									Cyfansw m	137	112						
									MB	35	20						
									Graddfa Sychder	1	1						

Atodiad 3:

Lluniau o'r Safle a Disgrifiad o'r Pwll




Safle



Pwll 1

Pwll 1 - Cyfeirnod grid SH79400 80850, gwair, defaid yn pori

0-35 cm	Priddglai canolig/lleidfaen tywodlyd, 10YR3/3, wedi'i ddatblygu'n wan, strwythur o flociau lledonglog a mân, nifer o wreiddiau ffibrog, pryfed genwair cyffredin, cynnwys carreg uwchbridd % >2cm 1%, >6cm 0% cerrig caled crwn
35-40 cm	Priddglai canolig/trwm, 7.5YR5/3, wedi ei ddatblygu'n wan, strwythur o flociau lledonglog canolig, mandylledd >0.5% mwy na 0.5mm o ran diamedr, brau, cynnwys carreg 7% cerrig caled crwn bychain
40-55 cm	Priddglai canolig, 7.5YR4/3, wedi'i ddatblygu'n wan, strwythur o flociau lledonglog canolig, mandylledd >0.5% mwy na 0.5mm o ran diamedr, brau
55-70 cm	Priddglai trwm, 5YR4/3, wedi'i ddatblygu'n wan, strwythur o flociau lledonglog canolig/garw, mandylledd >0.5% mwy na 0.5mm o ran diamedr, cadarn, ychydig yn galchaid
70-75 cm	Priddglai trwm, 5YR4/3 (wyneb gronynnau wedi eu cydgasglu 5YR5/2), wedi eu datblygu'n wan, prismatig canolig, mandylledd >0.5% mwy na 0.5mm o ran diamedr, smotiau melyn cyffredin, cadarn iawn



AutoCAD SHX Text

+1

AutoCAD SHX Text


- KEY

Plan reproduced from Ordnance Survey map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. Crown Copyright Reserved. Ordnance Survey Copyright Licence Number: 100005584

1:5,000

0 100m 200m

Drawing title	Ref.	Rev.	Reading Agricultural Consultants Ltd Gate House Beechwood Court Long Toll Woodcote RG8 0RR 01491 684233 www.reading-ag.com			
OBSERVATION MAPPING	RAC/10492b/1	A				
Contract	Drawn by	Checked by				
LAND OFF QUEENS ROAD, LLANDUDNO	AGM	AIF	A	RLB	21102024	 READING AGRICULTURAL CONSULTANTS
	Scales	Date	Rev.	Comment	Date	
	1:5,000@A4	10/2024				



Plan reproduced from Ordnance Survey map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. Crown Copyright Reserved.
Ordnance Survey Copyright Licence Number: 100005584

1:5,000

0 100m 200m

Drawing title AGRICULTURAL LAND CLASSIFICATION	Ref. RAC/10492b/2	Rev. A	Reading Agricultural Consultants Ltd Gate House Beechwood Court Long Toll Woodcote RG8 0RR 01491 684233 www.reading-ag.com		
Contract	Drawn by AGM	Checked by AIF			
LAND OFF QUEENS ROAD, LLANDUDNO	Scales 1:5,000@A4	Date 10/2024			
			A	RLB	21 10 2024
			Rev.	Comment	Date

